

# SAFONAU HYFFORDDIANT DIOGELU

## CENEDLAETHOL CYMRU

Mae hyfforddiant Y Panel yn cynnwys yr elfennau angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â [Safonau Hyfforddiant Diogelu Cenedlaethol Cymru](#) sy'n rhannu rolau yn [5 grŵp A-F](#).

Y grwpiau sy'n berthnasol i'n heglwys i'w A-C. Mae Grŵp A ar gyfer pawb, mae Grŵp B ar gyfer y rhai sydd â mwy o gyfrifoldeb ac mae C yn ymwneud â'r rhai sy'n cymryd rôl diogelu a gwneud asesiadau/penderfyniadau diogelu penodol.

### **Grŵp A**

**Rydym yn argymhell bod pob gweithiwr a gwirfoddolwr sy'n gweithio gyda grwpiau bregus yn cwblhau'r [Cwrs e-ddysgu Grŵp A](#) ar-lein** cyn gynted â phosibl ar ôl dechrau eu rôl a chyn iddynt wneud cwrs Panel Diogelu Cydenwadol Lefel 1 neu 2.

Datblygwyd y cwrs byr hwn (tua 45 munud) gan [Gofal Cymdeithasol Cymru](#) a gellir ei wneud ar adeg o'ch dewis - nid oes angen archebu lle. Bydd y cyrsiau [hyfforddiant diogelu y Panel](#) yn eich helpu i wreiddio'r wybodaeth Grŵp A hon a deall eich polisiau a'ch gweithdrefnau diogelu enwadol.



Gofal Cymdeithasol **Cymru**  
Social Care **Wales**



Panel Diogelu Cydenwadol  
Interdenominational Safeguarding Panel